Crynodeb o’r Cyfarfod

Fe wnaeth Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (“y Pwyllgor”) gwrdd ar 25 Mehefin 2025.

Daeth yr eitemau canlynol i law i roi sicrwydd arnynt:

- diweddariad ar gynnydd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26. Derbyniwyd hefyd adroddiad ar yr adolygiad archwilio mewnol o drefniadau Atal Gwyngalchu Arian.
- Cofnod o'r Camau Gweithredu sydd wedi eu cymryd yn dilyn yr Archwiliadau Mewnol ac Allanol a chofnod o’r cynnydd sydd wedi ei wneud wrth gyflawni’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn yr archwiliad.
- diweddariad ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- adolygiad risg penodol o ddwy o'r risgiau strategol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd: aeddfedrwydd y system ac adnoddau ariannol.
- diweddariad ar gyllid ac adnoddau – roedd hyn yn cynnwys y cyfrifon rheoli ar gyfer mis Mai 2025 a diweddariad ar y trefniadau pontio ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
- diweddariad ar yr archwiliad allanol blynyddol.

Fe wnaeth y Pwyllgor nodi’r canlynol:

- drafft o Ddatganiadau Ariannol ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru 2024/25.
- yr Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth, Chwarter 1, 2025/26.
- yr Adroddiad Diweddaru ar Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 1, 2025/26.
- Datblygu Achos Busnes – y broses dendro a’r dyfarnu contractau.
- Adnabod ac ymateb i arwyddion rhybudd cynnar mewn cyrff sector cyhoeddus: Adolygiad gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Asesiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru).

Fe wnaeth y Pwyllgor gymeradwyo’r canlynol:

- diwygiadau i'r Polisi Rheoliadau Ariannol.
- y Polisi Deallusrwydd Artiffisial.
- y Polisi Datblygu a Rheoli Data.

Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd drafod awgrymiadau'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn dilyn yr ymosodiadau seiber diweddar ar y sector manwerthu yn y Deyrnas Unedig.